# Cadeirydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

30-40 diwrnod i gyd (gan gynnwys cyfarfodydd, paratoi a theithio). Di-dâl, ond gyda chostau teithio a llety.

Sefydlwyd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) yn 2000. Mae hi newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 25 oed ac mae'n dal yn un o atyniadau mwyaf sylweddol Cymru i ymwelwyr sydd o werth gwyddonol ac addysgol eithriadol.

Mae'r Ardd yn aelod allweddol o'r gymuned ryngwladol o erddi botaneg, ac mae'n croesawu tua 173,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae hon yn ardd unigryw mewn tirwedd restredig Gradd 2*, gwarchodfa natur genedlaethol helaeth, fferm organaidd a chasgliadau gwyddonol sy'n dod â nifer o wahanol straeon am blanhigion a'r dirwedd naturiol yn fyw. Yma mae'r Tŷ Gwydr Mawr eiconaidd, sydd wedi ei adnewyddu'n ddiweddar mewn prosiect cyfalaf mawr gyda buddsoddiad o tua £1.5m. Mae'r Ardd yn sefydliad dwyieithog sy'n cyflogi 72 o weithwyr, yn cael ei chefnogi gan yn agos i 300 o wirfoddolwyr ac yn cynhyrchu incwm blynyddol o tua £5.5m.

Caiff yr Ardd ei chydnabod yn ased cenedlaethol yn y Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru ac yn gyfrannwr pwysig at economi'r rhanbarth, ac mae ei gweithgareddau'n cwmpasu garddwriaeth, addysg, cynaliadwyedd, cadwraeth, gwyddoniaeth ac ymchwil, y celfyddydau a diwylliant Cymru. Ei chenhadaeth yw *hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am wyddoniaeth planhigion, ac ysbrydoli pobl i werthfawrogi planhigion a diwylliant a threftadaeth Cymru i gyfoethogi bywydau.*

Mae swydd y Cadeirydd yn swydd arbennig o lysgenhadaeth, arwain a llywodraethiant gan weithio gyda thîm angerddol yr Ardd a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i lywio'r sefydliad drwy gyfnod cyffrous o esblygu a datblygu, gan barhau ei thwf fel sefydliad cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn dilyn ymddeoliad y cyn Gadeirydd ar ôl 8 mlynedd, mae'r Ardd am benodi olynydd o gefndir perthnasol (sy'n cynnwys garddwriaeth, addysg, cynaliadwyedd, cadwraeth, gwyddoniaeth ac ymchwil, y celfyddydau a diwylliant Cymru, a busnes) sydd â phrofiad ar lefel bwrdd o gadeirio bwrdd neu bwyllgor bwrdd. Bydd y sawl a benodir yn dod â brwdfrydedd ac empathi i waith yr Ardd ac yn arwain a chefnogi'r Bwrdd a'r tîm gweithredol i wireddu eu huchelgais.

Mae'r Bwrdd yn ymdrechu i sicrhau bod gwerthoedd yr elusen yn cael eu hadlewyrchu yn ei waith. Mae'n gynrychiolydd o'r amrywiaeth pobl y mae'n eu cefnogi ac yn sicrhau bod diwylliant iach yn sail i ddarparu pob gweithgaredd.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5 Chwefror 2026.** I gael rhagor o wybodaeth cliciwch ar y ddolen hon: www.odgers.com/95284 neu cysylltwch â'r tîm Odgers Cymru am sgwrs gyfrinachol yn Gymraeg neu yn Saesneg drwy OdgersWalesPractice@odgers.com